



# Cynnal Cymru-Sustain Wales

## **Cynllun Iaith Gymraeg Welsh Language Scheme**

Paratowyd y cynllun gwirfoddol yma mewn cytundeb â Chanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn ôl Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Cymeradwywyd y Cynllun Iaith Gymraeg yma gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar dd/mm/bb.

## Cynnwys

1. Am Cynnal Cymru-Sustain Wales
2. Datganiad cyffredinol
3. Ymdriniaeth gorfforaethol
4. Hunaniaeth gorfforaethol
5. Ymdrin â'r cyhoedd Gymraeg
6. Gweithredi arferol
7. Busnes mewnol
8. Monitro ac adrodd ar y cynllun

### 1. Am Cynnal Cymru-Sustain Wales

Mae Cymru'n un o'r ychydig wledydd yn y byd gyda chyfrifoldeb cyfansoddiadol i hyrwyddo datblygiad cynaladwy. Sefydlwyd Cynnal Cymru-Sustain Wales yn 2002 i helpu gyda'r ddyletswydd yma drwy weithio gyda'r bobl, y llywodraeth a chymdeithas sifil Cymru i barhau i symud yr agenda ymhellach ymlaen.

Cwmni dielw annibynnol yw Cynnal Cymru, wedi ei arwain gan Fwrdd o Gyfarwyddwyr. Etholir y Bwrdd o'r aelodaeth sydd yn agored i bawb yng Nghymru dros 18 oed.

Yn gyfredol cyflogir 6 aelod o staff gan y cwmni ac mae ganddi rwydwaith gefnogol o gannoedd o unigolion, yn aelodau a chefnogwyr, a grŵp craidd o sefydliadau a phartneriaid rhwydwaith busnes.

Yn 2007/08 ariannir hi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru.

Mae Cynnal Cymru'n falch o'i ymrwymiad i'r Gymraeg ac mi fydd yn gweithredi'n ddwy-ieithog. Er mwyn cael Cymru wir gynaladwy, rhaid inni fagu a thyfu'n iaith a'n diwylliant unigryw.

#### ▪ Amcanion y cwmni:

- Hyrwyddo datblygiad cynaladwy;
- Bod yn gatalydd am newid tuag at ddatblygiad cynaladwy ym mhob sector o gymdeithas Gymreig;
- Gweithredi fel fforwm o fewn Cymru ar gyfer datblygu, canfasio, cyfnewid a lledaeni farnau, gwybodaeth a pholisïau ar ddatblygiad cynaladwy.

#### ▪ Arwyddair:

dylanwadu ar lywodraeth – hyrwyddo trafodaeth – newid ymddygiad

- **Gweithrediadau:**

- a) Digwyddiadau a chyfarfodydd cyhoeddus
- b) Ymestyn allan a gwneud cyflwyniadau
- c) CynnalCymru.com
- d) Taflenni newyddion aelodau ac ymarferwyr
- e) Darparu cyngor
- f) Cyfarfodydd Bwrdd (Mewnol)

## **2. Datganiad cyffredinol**

“Mae Cynnal Cymru-Sustain Wales wedi mabwysiadu’r egwyddor o drin y Saesneg a’r Gymraeg ar sail o gydraddoldeb wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru. Drwy’r cynllun yma dengys sut bydd Cynnal Cymru-Sustain Wales yn effeithio’r egwyddor yma wrth ddarparu gwasanaeth i’r cyhoedd.”

## **3. Ymdriniaeth gorfforaethol**

Bydd monitro ac adrodd ar yr amcanion a mesuron yn ffurfio rhan o’r cylch adrodd blynyddol i’r Bwrdd o Gyfarwyddwyr ac i’r aelodaeth ehangach yn y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol. Cynhwysir crynodeb blynyddol yn yr adroddiad blynyddol i’r aelodau.

Bydd yr holl Adroddiadau Blynyddol a Chyfrifon yn cael eu cyhoeddi’n ddwyieithog ac yn ymddangos yn yr un ddogfen, nail ai gefn wrth gefn neu ochr i ochr.

Bydd Cynnal Cymru hefyd yn cyhoeddi adroddiad blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

## **4. Hunaniaeth gorfforaethol**

Cynnal Cymru - Sustain Wales yw teitl gweithiol y cwmni. Bydd yr enw’n cael ei ddefnyddio’n llawn pan yn ymarferol neu adnabyddir y cwmni fel Cynnal Cymru yn unig. Mae’r logo gorfforaethol yn ddwyieithog ac mae’r ddwy iaith yn hafal o rhan fformat, maint y ffont, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

## **5. Ymdrin â’r cyhoedd Gymraeg**

Rydym yn ymrwymedig i groesawi’n holl ohebiaeth yn y Gymraeg neu’r Saesneg. Datganir hyn ar ein deunydd ysgrifennu ac ar y wefan.

**Graddfa Amser: Mawrth 2008**

## Cyfrifoldeb: Swyddog Cyfathrebu

- **Ymateb i ohebiaeth**

Bydd yr holl ohebiaeth a derbynir yn y Gymraeg yn cael ei ateb yn y Gymraeg o fewn y graddfa amser addas am y ddogfen. Bydd holl ddeunydd ysgrifennu Cynnal Cymru yn cynnwys penodau llythyrau, slipiau cyfarch, cyflythyrau ffacs, ffurflenni ymuno, yn cynnwys y testun Cymraeg a Saesneg ochr i ochr.

### **Graddfa Amser: Ymarfer cyfredol** **Cyfrifoldeb: Gweinyddydd**

- **E-byst**

Bydd yr holl e-byst a derbynir yn y Gymraeg yn cael eu hateb yn y Gymraeg o fewn y raddfa amser addas. Pan ddanfonir e-bost ymlaen at aelod arall o staff, aelod o'r Bwrdd neu gyfieithydd allanol, dylid gofalu i asesu'r perygl rhag torri cyfrinachedd e-bost.

### **Graddfa Amser: Ymarfer cyfredol** **Cyfrifoldeb: Gweinyddydd**

- **Danfon gohebiaeth gyhoeddus**

Danfonir yn ddwyieithog pob gohebiaeth a gychwynnwyd gan Cynnal Cymru. Os yn bosib, bydd y Saesneg a'r Gymraeg i'w gweld o fewn yr un ddogfen, a lle'n ymarferol, ar yr un ddalen. Danfonir e-byst cyhoeddus i rwydweithiau Cynnal Cymru yn ddwyieithog gyda'r geiriau **[scroll down for English]** ar ben yr e-bost a gyda'r testun Saesneg oll mewn coch tywyll.

### **Graddfa Amser: Ymarfer cyfredol** **Cyfrifoldeb: Swyddog Cyfathrebu**

Cynhwysir maes ychwanegol ar y gronfa ddata o gysylltiadau i ddangos dewis iaith, pan ei fod ar gael. Cynhelir arolwg o aelodau ac o fewn yr arolwg gofynnir cwestiwn ar ddewis iaith.

### **Graddfa Amser: Mawrth 2008** **Cyfrifoldeb: Swyddog Cyfathrebu**

- **Cyfarchion ffôn**

Bydd pob galwad ffôn o'r tu allan yn cael ei ateb gydag enw'r cwmni wedi ei ddilyn gan enw'r unigolyn. Derbyngalwadau ffôn gan y gweinyddydd yn yr ystod cyntaf a bydd yn ymateb gyda chyfarch ddwyieithog ychwanegol. Yn absenoldeb y gweinyddydd, bydd pob aelod o staff yn rhoi cyfarch ddwyieithog wrth ateb ei ffôn. Mae hawl gan staff i ddewis os ydynt am gynnig cyfarch ychwanegol Cymraeg neu Saesneg wrth ateb eu ymestyniadau ffôn personol.

Os fod y person sy'n galw am siarad yn y Gymraeg, bydd staff yn ceisio ymateb yn y Gymraeg i ba bynnag lefel maent yn gyfforddus, neu esbonio i'r cwsmer nad ydynt yn medru'r Gymraeg ond y gallant eu trosglwyddo i siaradwr Cymraeg, pan fo un ar gael, os byddai'n well ganddynt.

**Graddfa Amser: Ymarfer cyfredol**  
**Cyfrifoldeb: Gweinyddydd**

## 6. Gweithredi arferol

Pan fod ein gweithrediadau arferol yn golygu cyfathrebu'n allanol gydag unigolion, sefydliadau a busnesau, rydym wedi ein hymrwymo i ymgymryd â'r busnes hynny'n ddwyieithog.

### ▪ Digwyddiadau a chyfarfodydd cyhoeddus

Cynhelir pob cyfarfod cyhoeddus a drefnwyd gan Cynnal Cymru mewn modd sydd yn caniatáu dewis iaith i'r dirprwyon. Ar gyfer pob cyfarfod a chynhadledd cyhoeddus allweddol, fel y CBC, defnyddir cyfieithydd ar y pryd.

**Graddfa Amser: Ymarfer cyfredol**  
**Cyfrifoldeb: Gweinyddydd**

Mewn digwyddiadau, pe bai cwsmer yn cyfarch aelod o staff yn y Gymraeg, ac nid ydynt yn medru'r Gymraeg, byddant yn esbonio nad ydynt yn medru'r Gymraeg ac yn cynnig eu cyfeirio at y siaradwr Cymraeg agosaf, pan fod un ar gael.

Dylunwyr a chynhyrchir yn ddwyieithog yr holl ddeunydd arddangos brand, yn cynnwys deunydd arddangos 'pop-up', arwyddion baner, pensiliau a pheniau, ffolderi dirprwyon, arwyddion a hysbysebion, ayb.

**Graddfa Amser: Ymarfer cyfredol**  
**Cyfrifoldeb: Swyddog Cyfathrebu**

### ▪ Ymestyn allan & gwneud cyflwyniadau

Bydd cyflwyniadau a wnaed ar ran y cwmni yn cael eu hysgrifennu a'u cyflwyno mewn iaith addas i'r gynulleidfa a'r cyflwynydd. Pan ceir cais am gopi o gyflwyniad yn y Gymraeg, cyfieithir hi, os yn rhesymol, at ddewis y Cyfarwyddwr Gweithredol.

**Graddfa Amser: Ymarfer cyfredol**  
**Cyfrifoldeb: Gweinyddydd**

### ▪ CynnalCymru.com

Bydd wefan y cwmni [www.cynnalcymru.com](http://www.cynnalcymru.com) yn cael ei gynnal a'i diweddarau yn y Gymraeg a'r Saesneg yn gydamserol. Wrth ei ddefnyddio,

bydd y tudalennau Cymraeg a'r Saesneg yn unfath. Bydd hi'n bosib newid rhwng y Gymraeg a'r Saesneg ar unrhyw dudalen o'r safle.

Wrth cyfeirio at y wefan mewn dogfennau cyhoeddus neu e-byst: defnyddir CynnalCymru.com ar gyfer dogfennau Cymraeg a SustainWales.com ar gyfer dogfennau Saesneg. Defnyddir y ddau pan fo'r cynnwys yn ddwyieithog e.e. ar ddeunydd arddangos 'pop-up'. Dylid gwneud hyn mewn cytundeb â chanllawiau brandio'r wefan.

Bydd y ddogfennaeth ar y wefan sydd wedi tarddu o Cynnal Cymru i'w weld yn ddwyieithog.

Ni fydd testun Saesneg sydd wedi cael ei roi ar y safle gan barti allanol yn cael ei gyfieithu, er enghraifft, sefydliadau sydd wedi cofrestru sefydliad neu brosiect. Pan yn llwytho gwybodaeth, bydd y wefan yn amlygu i'r defnyddiwr nad ydy'r rhan Gymraeg wedi ei chwblhau, a'u cyfrifoldeb hwy yw ei wneud.

Pan fod Cynnal Cymru yn dechrau, neu yn ymuno â thrafodaeth ar ei fforwm trafod ei hun, bydd yr holl cofnodion yn ddwyieithog. Ni fydd ymdrech yn cael ei wneud i gyfieithu cofnodion partion eraill heblaw fod cytundeb blaenorol.

### **Graddfa Amser: Ymarfer cyfredol Cyfrifoldeb: Pennaeth Cyfathrebu**

#### **Taflen newyddion aelodau & ymarferwyr**

Bydd pob bwletin a ddanfonir i aelodau a chefnogwyr Cynnal Cymru yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog, os ydynt yn electronig neu wedi eu hargraffu. Dylai bwletinau byr, o lai nag un tudalen, ymddangos ar yr un ddogfen ac/neu e-bost.

Bydd pob taflen newyddion a ddanfonir i ymarferwyr datblygu cynladwy yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog, os ydynt yn electronig neu wedi eu hargraffu.

Bydd e-byst cyfeilio i aelodau, cefnogwyr neu rwydweithiau llydanach yn cael eu hanfon yn ddwyieithog, y Gymraeg yn gyntaf a'r geiriau **[scroll down for English]** ar ben yr e-bost a gyda'r testun Saesneg mewn coch tywyll.

### **Graddfa Amser: Ymarfer cyfredol Cyfrifoldeb: Swyddog Cyfathrebu**

#### **Cysylltiadau cyhoeddus & cyfathrebiadau cyfryngau**

Bydd cysylltiadau cyhoeddus oll yn deilwredig i'r gynulleidfa.

Darperir datganiadau i'r wasg, newyddion, erthyglau, datganiadau a dyfyniadau yn yr iaith (ieithoedd) priodol ar gyfer y cyhoeddiad penodol.

Mewn achosion pan fo'r datganiad i'r wasg yn daer a ni ellid yn rhesymol cwblhau'r cyfieithu o fewn yr amser a ganiateir, gellir rhyddhau'r copi Saesneg cyn y Gymraeg gyda thestun yn datgan fod y cwmni yn gweithredu polisi dwyieithog a gellid ymdrin ag ymholiadau yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

Bydd yr holl gyhoeddusrwydd a hysbysebu sydd i ymddangos o fewn Cymru yn cael ei gyhoeddi yn y Gymraeg a'r Saesneg gyda statws cyfartal. Gellir cyhoeddi cyhoeddusrwydd a hysbysebu na fydd yn ymddangos yng Nghymru yn yr iaith addas ar gyfer y gynulleidfa, gallai hyn gynnwys, neu beidio, y Gymraeg.

### **Graddfa Amser: Ymarfer cyfredol Cyfrifoldeb: Pennaeth Cyfathrebu**

#### **Darparu cyngor**

Cyhoeddir pob cyhoeddiad yn ddwyieithog ond gellid eithrio defnydd academiaidd neu sylweddol at ddewis y Cyfarwyddwr Gweithredol.

Efallai na all rhai staff arbenigol darparu cyngor neu gyfathrebiadau llafar yn y ddwy iaith, fodd bynnag, lle'n addas, gellid gweithredu ar y cyngor trwy ei gyfieithu a'i rhoi ar-lein.

### **Graddfa Amser: Ymarfer cyfredol Cyfrifoldeb: Pennaeth Polisi**

## **7. Busnes mewnol**

Croesawir y defnydd o'r Gymraeg yn yr amgylchedd gwaith arferol ac wrth arwain busnes mewnol rhwng staff a'r Bwrdd o Gyfarwyddwyr. Anogir staff i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg tra bod hyn yn gyfforddus iddynt.

#### **Cyfarfodydd Bwrdd**

Wrth gytundeb y Bwrdd, nid oes angen cael cyfieithwyr ar y pryd mewn cyfarfodydd mewnol, fel Cyfarfodydd Bwrdd.

Efallai bydd y Bwrdd am flaenoriaethu siaradwyr Cymraeg wrth gyfethol aelodau Bwrdd newydd.

#### **Recriwtio**

Wrth i swyddi ddod ar gael, neu gael eu creu, rhoddir iddynt ddynodiad iaith yn seiliedig ar ba raddfa mae angen cyfathrebu yn y Gymraeg er mwyn cynnal dyletswyddau'r swydd. Mewn rhai achosion, gallai'r dynodiad iaith adlewyrchu gofynion arianwyr neu budd-ddeiliaid. Bydd dynodiadau iaith yn cynnwys:

- Cymraeg yn hanfodol
- Cymraeg yn fantais
- Cymraeg yn ddymunol.

Bydd recriwtio fel arfer ar ffurf CV gyda llythyr eglurhaol a all gael ei gyflwyno mewn Saesneg yn unig neu yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ni chyfieithir ceisiadau.

Mae hysbysebu recriwtio staff ym mhapurau seiliedig yng Nghymru yn gyfredol yn ddwyieithog. Ar gyfer swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol byddwn yn hysbysebu yn y Gymraeg yn unig gydag esboniad cwta yn Saesneg. Byddwn yn ystyried ac yn defnyddio, lle'n briodol, dulliau eraill o hysbysebu swyddi - er enghraifft ym Mhapurau Bro a Golwg.

### **Graddfa Amser: Ymarfer cyfredol** **Cyfrifoldeb: Cyfarwyddwr Gweithredol**

#### **Hyfforddiant**

Bydd camau rhesymol yn cael eu cymryd i adnabod lefel sgil a chysur ymysg staff mewn defnyddio'r Gymraeg. Gall hyn cael ei wneud wrth recriwtio neu mewn gwerthusiad blynyddol.

Lle gofynnir am hyfforddiant yn y Gymraeg, bydd mesurau yn cael eu cymryd i ddarparu hyn. Bydd y cwmni yn caniatáu staff i ymgymryd â hyfforddiant sgiliau iaith Cymraeg o fewn eu horiau gwaith arferol fel y cytunwyd gyda'u rheolwr llinell.

#### **8. Monitro ac adrodd ar y cynllun**

Tra bod cyfrifoldeb gan bob aelod o'r staff a'r Bwrdd i sicrhau trosglwyddiad effeithiol y Cynllun, mae cyfrifoldeb gan y Cyfarwyddwr Gweithredol i fonitro ac adrodd ar y perfformiad cyflawn fel rhan o'i adroddiad blynyddol i'r Bwrdd ac aelodau ehangach.

Os mae profiad yn amlygu'r angen, bydd y Cynllun yn cael ei newid mewn cydweithrediad â Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Bydd Rheolwyr yn recordio ac yn adrodd yn chwarterol ar:

- Nifer y defnyddwyr sydd yn dymuno cyfathrebu yn y Gymraeg ac amseroedd ymateb
- Rhif a chyfran gyflawn o unrhyw gyhoeddiadau / datganiadau i'r wasg ayb, nad ydynt wedi eu cynhyrchu'n ddwyieithog, a'r rhesymau paham
- Canran atebion gohebiaeth Cymraeg o fewn y terfyn amser a gytunwyd
- Nifer y digwyddiadau ayb, fel cyfran, lle na chafwyd cyfieithu / dehongli a phaham
- Nifer y staff a gwirfoddolwyr yn ymgymryd â hyfforddiant Gymraeg ac at ba lefel.

Bydd y gweinyddydd yn ymgymryd ag archwiliad blynyddol i gynnwys:

- Nifer y siaradwyr Cymraeg ymysg staff, y Bwrdd a gwirfoddolwyr, a'u rhuglder.

Bydd lefelau rhuglder yn cael eu categorio fel a ganlyn:

**Rhugl:** medru cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg

**Canolraddol:** medru cyfathrebu ar lefel ganolraddol gydag ychydig neu dim cymorth

**Gwybodaeth sylfaenol:** medru cyflawni tasgau sylfaenol trwy'r Gymraeg gyda chymorth.

**Bydd Cynnal Cymru yn adolygu'r cynllun pob tair blynedd.**

**Prif gyswllt:**

Rhiannon Dafydd  
Swyddog Cyfathrebu  
Cynnal Cymru-Sustain Wales  
Cwrt y Deml  
13a Heol yr Eglwys Gadeiriol  
Caerdydd  
CF11 9HA

[info@cynnalcymru.org](mailto:info@cynnalcymru.org)